S4C RONDO

CÔR CYMRU
CYNRADD

cystadleuaeth 2021 competition

Mae S4C yn falch i gyhoeddi cystadleuaeth Côr Cymru Cynradd 2021.

Trefnir y gystadleuaeth gan gwmni Rondo a bydd y rownd derfynol ar **Sadwrn Mai 1af 2021** yng Nghanolfan y Celfydyddau, Aberystwyth yn cael ei darlledu ar S4C.

Mae'r gystadleuaeth yma i gorau ysgolion cynradd academaidd ac nid i ysgolion perfformio.

Rhaid bod lleiafswm o 20 aelod ym mhob Côr.

Panel o feirniaid rhyngwladol fydd yn dewis y corau a bydd barn y panel yn derfynol.

Gwobr o £100 am gyrraedd y rownd derfynol.

Gwobr o £500 a thlws am ennill Côr Cymru Cynradd.

Dyddiad cau derbyn ceisiadau: 12.10.20.

Gwrandawiadau

Bydd pob côr yn cael eu recordio (sain yn unig) gan beiriannydd sain proffesiynol yn eu cynefin ddechrau Rhagfyr 2020. Dylai'r corau baratoi rhaglen amrywiol o gerddoriaeth rhwng 6 - 8 munud. Er nad oes rheidrwydd i gynnwys darn di-gyfeiliant rydym yn annog corau i wneud hyn. Ni chaniateir golygu'r perfformiad, a chaiff pob côr gopi CD o'u perfformiad. Gwrandewir ar y recordiadau gan banel o feirniaid rhyngwladol, ac fe fydd y corau'n cael eu hadnabod fesul rhif, ac nid enw. Y gobaith yw hysbysu pob côr o ganlyniad eu gwrandawiad erbyn canol Ionawr 2020, pan y gwahoddir hyd at bedwar côr ym mhob categori i fynd ymlaen i'r rownd derfynol.

Bwriedir recordio yn yr ardaloedd canlynol fel a ganlyn:

Nos Iau	03.12.20	Caerfyrddin
Nos Wener	04.12.20	Castell Newydd Emlyn
Dydd Sadwrn	05.12.20	Caerdydd
Dydd Sul	06.12.20	Bangor
Nos Lun	07.12.20	Yr Wyddgrug
Nos Fawrth	08.12.20	Aberystwyth

Y Rownd Derfynol

Gofynnir i'r corau sy'n cael eu dewis i fynd ymlaen i'r rownd derfynol baratoi rhaglen amrywiol o 8-10 munud o hyd. Dylid canu o leiaf un darn yn yr iaith Gymraeg, ac ni chaniateir mwy nag un darn yn yr iaith Saesneg. Rhaid i'r darn Saesneg fod o dan 3 munud o hyd. Caniateir canu darnau o'r clyweliad os y dymunir.

Gofynnir i'r corau:

Erbyn **Chwefror 15ed 2021** fan bellaf

- Gyflwyno **rhaglen y rownd derfynol** ar bapur neu trwy ebost ynghyd â darparu cadarnhau o gliriadau hawlfraint os bydd angen.

- Anfon **copïau o'r gerddoriaeth** gyda unrhyw doriadau neu 'ail-ganu' wedi eu copïo mewn yn barod.

Ni chaniateir newid y rhaglen ar ôl y dyddiad yma oni bai bod problem yn codi gyda chlirio hawlfraint darlledu darn arbennig.

Erbyn **Mawrth 8ed 2021**

- **Gwybodaeth am unawdwyr, niferoedd, trefn sefyll a chyfeiliant**.

- **Recordiad gweledol** (fideo) wedi ei wneud ar ffôn/ipad/dablet o'r darnau fel mae nhw'n cael eu cyflwyno ar lwyfan. Mae'n orfodol i bob côr baratoi fideo er mwyn galluogi'r Cyfarwyddwr i baratoi sgript fanwl cyn y perfformiadau yn Aberystwyth.

Hawlfraint

Os ydych yn defnyddio cyfieithiad neu drefniant sydd heb ei gyhoeddi, mae angen caniatâd ar bapur wrth gyhoeddwyr y gwreiddiol os gwelwch yn dda. Cyfrifoldeb y corau yw talu am gomisiynu'r cyfieithiadau newydd ac am y caniatâd i ddefnyddio'r cyfieithiadau ar S4C. Dyw'r ffaith bo darn wedi cael ei berfformio ar S4C yn y gorffennol ddim o reidrwydd yn golygu y ceir caniatâd i'w ddarlledu eto gan bod hi'n ddyletswydd ar y cynhyrchwyr i glirio cyfeithiad/ trefniant bob tro mae'n cael ei berfformio ar gyfer teledu. Gorau po gyntaf mae'r wybodaeth yn ein cyrraedd ni o ran repertoire sy'n cynnwys trefniannau/ cyfieithiadau/darnau heb eu cyhoeddi.
Os am gymorth o berchnogaeth o ddarn o gerddoriaeth, gyfieithiad neu drefniant yna ebostiwch corcymru@rondomedia.co.uk ac fe wnawn ni'n gorau i geisio dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol i chi.

Ni ellir gwarantu perfformio darnau oni bai bod y caniatâd cywir wedi ei roi.

Mae gan S4C yr hawl i wrthod corau i gystadlu os nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r amodau.

Chaperones

Er mwyn sicrhau eu diogelwch a chydymffurfio â gofynion unrhyw drwyddedau perfformio, fe fydd angen i'r corau cynradd drefnu bod chaperone cofrestredig yn teithio ar unrhyw fws y bydd Rondo yn ei drefnu ar gyfer cludo'r côr i Aberystwyth ac yn ôl.

Tra yn Aberystwyth fe fydd Rondo yn trefnu chaperones i fod ar ddyletswydd gydol y cyfnod cystadlu ac yn cydweithio gyda threfyddion y corau i drefnu gofal y plant yn ystod y cystadlu yn Aberystwyth.

Cyfeiliant

Trwy gydol y gystadleuaeth, caniateir defnyddio hyd at 5 cerddor fel cyfeiliant i'r eitemau.

Cyfrifoldeb y côr yw trefnu'r cerddorion a thalu unrhyw ffioedd sy'n ddyledus trwy ddarlledu.
Mae croeso i gorau ysgolion cynradd gystadlu yng nghategori'r corau plant yng nghystadleuaeth Côr Cymru 2021 os y dymunir.

Teithio i Aberystwyth

Bydd Rondo yn talu am fws i'r corau gyrraedd Aberystwyth.

Ni fydd Rondo yn cyfrannu tuag at gost llety yn Aberystwyth.

Mae Rondo'n cadw'r hawl ar unrhyw amser i ddiwygio'r rheolau yma neu ohirio, canslo neu newid unrhyw ran o'r gystadleuaeth neu gynhyrchu'r Gyfres o ganlyniad i digwyddiadau tu hwnt i'n rheolaeth neu fel arall.

Am fwy o fanylion, cysyllter â

Swyddfa Côr Cymru 2021
Rondo
Llawr 9
Ty South Gate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 029 2022 3456
Cost galwad arferol, gall y gost fod yn uwch drwy ffôn symudol

E-bost: corcymru@rondomedia.co.uk

Gweler amodau llawn y gystadleuaeth ar **s4c.cymru/corcymru** ac ar **rondomedia.co.uk**

Wrth ymgeisio yn y Gystadleuaeth, mae ymgeiswyr yn rhoi'r hawl i Rondo gymryd cofnod o'u manylion cyswllt at bwrpasau gweinyddu'r Gystadleuaeth. Ni fydd Rondo yn trosglwyddo gwybodaeth bersonol ymgeiswyr i unrhyw drydydd parti nac yn defnyddio manylion personol ymgeiswyr at unrhyw bwrpas ar wahân i weinyddu'r gystadleuaeth hon a hyrwyddo cystadleuaeth debyg yn y dyfodol.

Defnyddir unrhyw ddata personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr yn unol â deddfwriaeth diogelu data gyfredol y DU. Gweler Polisi Diogelu Data S4C (http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/c_polisi_diogeludata.pdf) am ragor o wybodaeth. Caiff data sy'n ymwneud ag ymgeiswyr ei gadw gan Rondo am gyfnod rhesymol wedi'r Gystadleuaeth i gynorthwyo Rondo/ S4C i ddelio ag unrhyw ymholiadau.

S4C RONDO

CÔR CYMRU CYNRADD

cystadleuaeth 2021 competition

S4C is delighted to announce Côr Cymru Cynradd 2021 – a choral competition for primary schools in Wales.

The competition is organised by Rondo Media and the final round on **Saturday May 1st 2021** at the Aberystwyth Arts Centre will be broadcast on S4C.

The competition is open to choirs from academic primary schools and not performing schools.

Each choir should have a minimum of 20 members.

An international panel of judges will select the choirs and the jury's decision will be final.

There will be a prize of £100 for reaching the final round.

The winner of Côr Cymru Cynradd will receive a prize of £500 and trophy.

Closing date for entries: 12.10.20.

Auditions

Each choir will be recorded (sound only) by a professional sound engineer in their local area in early December 2020. Choirs should prepare a varied programme of 6-8 minutes. It is not a requirement to perform an unaccompanied item but this should be encouraged. The performance will not be edited and each choir will receive a CD copy of their performance. An international panel of judges will listen to the recordings and choirs will be identified by number, not name. We aim to inform choirs of the results by mid January 2021when up to four choirs will be selected to proceed to the final.

We **aim** to record in the following areas as follows:

Thursday evening	03.12.20	Carmarthen
Friday evening	04.12.20	Newcastle Emlyn
Saturday	05.12.20	Cardiff
Sunday	06.12.20	Bangor
Monday	07.12.20	Mold
Tuesday evening	08.12.20	Aberystwyth

The Final

The choirs selected to proceed to the final round are required to perform a varied programme of 8-10 minutes. At least one piece in the Welsh language should be included, and not more than one piece in the English language. The English language piece should be no longer than 3 minutes in duration. Choirs are allowed to sing pieces from their audition if desired.

Choirs are required to:

By **February 15th 2021** at the latest to

- Present their programme for the **final** by letter or email to the organisers.
- Send copies of your music to the organisers with any cuts/repeats copied in.
- Provide confirmation of copyright clearance as required.

No changes to the programme will be allowed after this date unless a problem arises with the clearing of broadcasting rights of a certain item.

By **March 8th 2021**

- Send details of any soloists, accompaniment, numbers in the choir and choir lay out on stage.
- Send **a video recording** of the choral items as they are presented on stage filmed on a phone/tablet/ipad. Each choir is required to prepare this video to enable the Director to prepare a detailed script before the performance in Aberystwyth.

- S4C has the right to ask a choir to change its programme should a problem arise with broadcast copyright.

- **S4C has the right to stop choirs from competing unless they comply with the conditions of the competition.**

Copyright Clearances

If you are performing an arrangement, adaptation or translation of a piece that has not been published, then permission is required on paper from the publishers of the original please. It is the choir's responsibility to pay for commissioning any new translations and for the right to broadcast the translation on S4C. The fact that a piece has been performed previously on S4C does not necessarily mean that permission will be granted again as it is the responsibility of the producers to clear a translation/arrangement every time it's performed for television. If you're performing repertoire that is an arrangement/ translation/unpublished, the sooner we receive the information from you, the better.

If you need assistance with the copyright of a piece of music, translation or arrangement, then please email corcymru@rondomedia.co.uk and we will do our best to find the relevant information for you.

If the correct permission has not been given then the performance of pieces is not guaranteed.

Chaperones

In order to protect their safety and comply with any performance licences, choirs will need to arrange registered chaperones to travel with the choir on any coach that Rondo organises for the transportation of the choir to/from Aberystwyth.

Whilst in Aberystwyth Rondo will arrange for chaperones to be on duty during the competition schedule and will work alongside organisers of the choir to guard the children during the competition.

Travel to Aberystwyth

Rondo Media will pay for coaches for the choirs to reach Aberystwyth.
Rondo Media will not pay for accommodation costs in Aberystwyth.

Accompaniment

Throughout the competition, up to 5 musicians are allowed to provide accompaniment to the musical items.

It is the choir's responsibility to arrange the musicians and pay any broadcast fees that may be due.

Primary School Choirs are welcome to enter the children's category in Côr Cymru 2021 if desired.

Rondo reserves the right at any time to amend these rules or to cancel, modify or amend the competition or any other part of the production of the Series as a result of incidents beyond its control or otherwise.

For more information, please contact:

Côr Cymru 2021
Rondo
9th Floor
South Gate House
Cardiff
CF10 1EW

Tel: 029 2022 3456
Standard rate call charges apply, costs could be higher using a mobile phone

Email: corcymru@rondomedia.co.uk

Competition rules can be seen on **s4c.cymru/corcymru** and on **rondomedia.co.uk**

By entering the Competition, the entrants give Rondo permission to register their contact details for the purpose of the competition. Rondo will not transfer the personal information of entrants to any third party nor use entrants personal details in other way than to administer the competition and promote any future competitions organised by Rondo. Any personal data relating to the entrants will be used in accordance with the current UK Data Protection Act.

Please refer to (http://www.s4c.cymru/production/downloads/e_producer_data_security_guidelines14.pdf) for further information.

Data relating to entrants will be kept by Rondo for a reasonable period after the competition to assist with any enquiries to Rondo/S4C relating to the competition.